# Rheoli ein Habsenoldeb a'n Cyflenwi yn Effeithlon

Bwriad yr holiadur/awgrymiadau canlynol yw cynorthwyo ysgolion i adfyfyrio ar eu harferion a'u proses bresennol mewn perthynas â rheoli cyflenwi. I gael y budd mwyaf o'r pecyn cymorth hwn, argymhellir bod ysgolion yn adolygu'r ddogfen ganllaw atodedig sy'n tynnu sylw at ystod o arferion da sy'n cynorthwyo i reoli costau cyflenwi asiantaethau'n effeithlon.

Gofynnir i ysgolion nodi blaenoriaethau i wella prosesau/canlyniadau ac i sicrhau'r gwerth gorau oll.

| Blaenoriaeth | Y cymorth y mae ei angen | Amserlen |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |

**Ysgol** ________________

**Maint** ____________________________

**Y person sy'n gyfrifol am gyflenwi** __________________ **Rôl yn yr Ysgol** ____________________




## Pecyn cymorth hunanwerthuso

| Cyflenwi rheolaidd a/neu ddyddiol | Ie | Na | Blaenoriaeth (U,C,I) | Gweithredu posibl gan yr ysgol |
|---|---|---|---|---|
| 1. A yw'r holl uwch-arweinwyr a staff sy'n ymwneud â chynllunio'r angen am gyflenwi yn hollol ymwybodol o'r goblygiadau o ran costau ac yn sylweddoli ei fod yn adnodd gwerthfawr sydd wedi'i gyllidebu? | | | | |
| 2. A oes prosesau clir ar gyfer awdurdodi caffael cyflenwi sy'n cynnwys y costau cysylltiedig a rhesymau clir dros y cyflenwi i gefnogi rheolaeth gadarn ar y cyflenwi? | | | | |
| 3. A yw'r penderfyniad ynghylch cyflenwi ac unrhyw gaffael yn cael ei arwain gan y tîm uwch-arweinwyr? | | | | |
| 4. Fel ysgol a ydym yn defnyddio asiantaeth fel 'dewis olaf' ar gyfer cyflenwi rheolaidd? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. Ai dim ond y cyflenwi anhysbys dyddiol sy'n weddill i'r diwrnod dan sylw? | | | | |
| 6. Fel ysgol rydym yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o gyflenwi heb orfod galw am staff cyflenwi i ddod i mewn ac rydym yn hapus i rannu'r arfer da hwn gydag ysgolion eraill. | | | | |
| 7. A oes gennych gronfa o oruchwylwyr cyflenwi neu Gynorthwywyr Addysgu sydd wedi'u hyfforddi i gamu i'r adwy a darparu cyflenwi? | | | | |
| 8. Lle mae polisi yswiriant yn bodoli, a ydych yn ceisio darparu cyflenwi o fewn yr incwm a ddarperir neu mor agos â phosibl ato? | | | | |
| 9. A ydym yn cyfyngu ar effaith absenoldebau a gynlluniwyd, fel absenoldebau proffesiynol, ac anghenion cyflenwi yn sgil digwyddiadau mewnol, nad ydynt yn cael eu talu gan gyllid, drwy gynllunio ymlaen llaw? | | | | |
| 10. A ydych yn sicrhau bod yr holl staff yn deall bod disgwyliad y bydd y cyflenwi'n gyfyngedig wrth ddylunio digwyddiadau/gweithgareddau ysgol a bod hyn yn cael ei gyfathrebu'n rheolaidd?<br>h.y. wythnosau clir 'dim cyflenwi wedi'i gynllunio', digwyddiadau wedi'u symud/canslo i leihau'r effaith ar gyflenwi | | | | |
| 11. Lle mae angen cyflenwi i gefnogi anghenion ADY, a yw'r anghenion ar gyfer y diwrnod ar draws yr ysgol gyfan yn cael eu hystyried cyn y gofynnir am staff asiantaeth? | | | | |
| 12. A ydych yn defnyddio'n llawn unrhyw gyfnodau gwag ar amserlenni'r staff presennol i sicrhau tegwch o ran baich ac yn darparu cyflenwi ychwanegol? | | | | |
| **Cyflenwi drwy asiantaeth ar gyfer swyddi gwag/Cyflenwi tymor hwy** | **Ie** | **Na** | **Blaenoriaeth (U,C,I)** | **Gweithredu posibl gan yr ysgol** |
| 13. A oes gan eich ysgol berthynas waith sydd eisoes wedi'i sefydlu gyda rhai asiantaethau? | | | | |
| 14. Fel ysgol, a ydych chi erioed wedi herio costau cyflenwi unigol a chyfraddau asiantaethau? | | | | |
| 15. A ydych chi wedi negodi i leihau ffioedd asiantaethau ym mhrisiau'r Fframwaith? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16. Lle mae cyflenwi'n gysylltiedig ag absenoldebau sylweddol, a oes gan yr ysgol brosesau clir mewn perthynas ag Adnoddau Dynol a phrosesau Iechyd Galwedigaethol ochr yn ochr â hynny? | | | | |
| 17. Lle mae swyddi gwag neu absenoldebau yn lleihau'r gyllideb staffio, a roddir gwybod am hyn i'r llywodraethwyr, gyda throsglwyddiadau ariannol priodol i wrthbwyso costau'r asiantaeth? | | | | |
| **Ychwanegolrwydd RSS, Cynorthwywyr Addysgu, grantiau, ymyriadau, lles ac ati** | **Ie** | **Na** | **Blaenoriaeth (U,C,I)** | **Gweithredu posibl gan yr ysgol** |
| 18. Lle gellir adennill costau, rydym bob amser yn sicrhau ein bod yn adennill y costau ac yn prosesu'r hawliadau am y gwerth llawn. | | | | |
| 19. Lle mae staff asiantaeth yn gysylltiedig â grantiau, a yw'r ysgol yn sicrhau nad yw costau staff yn fwy na'r grant sydd ar gael. | | | | |
| 20. Lle mae staff asiantaeth yn gysylltiedig â grantiau, a oes cynlluniau clir ar waith i roi'r gorau i/lleihau'r cymorth ychwanegol wrth i gyllid leihau neu ddod i ben? | | | | |
| 21. Lle mae angen staff ychwanegol, a yw'r gofyniad yn cael ei adolygu'n rheolaidd? | | | | |
| 22. Lle mae anghenion staffio yn cynyddu ac yn lleihau ar sail gylchol, a ydych wedi archwilio'r defnydd o gontractau oriau blynyddol? | | | | |
| 23. Os oes gan yr ysgol angen dyddiol rheolaidd am gymorth neu gyflenwi ychwanegol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu, a ydych wedi dadansoddi nifer y diwrnodau y flwyddyn a ddefnyddir, ac a ydych wedi cyflogi staff ychwanegol ar gyfer yr angen ychwanegol am gost is na chost asiantaeth? | | | | |
| **Cyffredinol ac edrych i'r dyfodol a hyfforddiant** | **Ie** | **Na** | **Blaenoriaeth (U,C,I)** | **Gweithredu posibl gan yr ysgol** |
| 24. A ydych yn sicrhau bod cofnodion clir bob amser yn cael eu cadw o'r math o gyflenwi a'r rheswm pam mae angen cyflenwi mewn fformat y gellir ei ddadansoddi i weld patrymau? A ydych yn ystyried cost y flwyddyn flaenorol? | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 25. A yw cyflenwi'n fater sy'n cael sylw rheolaidd mewn trafodaethau o fewn y Tîm Uwch-reolwyr a/neu'r Corff Llywodraethu? | | | | |
| 26. A oes gennych unrhyw arferion da neu unrhyw ffyrdd arloesol o weithio/cynlluniau creadigol i'w rhannu ag ysgolion eraill? | | | | |
| 27. A oes gennych bolisi mewnol i sicrhau eglurder ac i wneud penderfyniadau ynghylch anghenion cyflenwi ac a fyddai hyn yn helpu i gynnal cysondeb drwy Sir Gaerfyrddin? | | | | |
| 28. Fel ysgol, a ydych chi erioed wedi cwrdd yn benodol i ystyried sut y gellir trefnu cyflenwi yn wahanol? | | | | |
| 29. Os oes gan eich ysgol Uned ADY, a yw cyflenwi'n cael ei ystyried drwy'r ysgol gyfan? | | | | |
| 30. A yw'r gost o gyflenwi mewn Uned ADY wedi'i chodio'n glir i'r uned er mwyn helpu i ddadansoddi'r angen? | | | | |
| 31. A ydych yn sicrhau bod yr holl incwm yswiriant posibl yn cael ei hawlio bob mis mewn modd amserol? | | | | |
| 32. A yw cyflenwi'n cael ei gynnwys yng nghostau teithiau ac ymweliadau gyda disgyblion ac a yw hyn yn cael ei ddebydu (adennill costau'n llawn)? | | | | |
| 33. A yw'r ysgol yn ymwybodol, os yw aelod o staff yn cael ei gyflogi drwy asiantaeth ar y fframwaith, cyn belled â bod 4 wythnos o rybudd yn cael ei roi erbyn diwedd yr 8fed wythnos o'r bwriad i drosglwyddo'r gweithiwr asiantaeth i gyflogres y Cyngor, ni ellir gweithredu unrhyw gyfnod asiantaeth estynedig na thaliad. | | | | |
| **Cwestiynau ategol -** | **Ie** | **Na** | **Sylwadau Ychwanegol** | |
| 34. A fyddai gennych ddiddordeb mewn hyfforddiant, trafodaeth a chymorth gan yr Awdurdod Lleol ynghylch y mater hwn? | | | | |
| • Beth fyddai'r prif feysydd diddordeb/pynciau? | | | | |
| • Pryd a sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni orau? | | | | |
| • A fyddai gennych ddiddordeb mewn mynychu hyfforddiant dan arweiniad yr awdurdod ynghylch rheoli absenoldeb athro/staff? | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 35. A fyddai gennych ddiddordeb mewn datblygu cronfa o Gynorthwywyr Addysgu/Goruchwylwyr Cyflenwi? | | | |
| 36. A fyddai gennych ddiddordeb mewn datblygu rhaglen Prentisiaeth Cynorthwyydd Addysgu yn Sir Gaerfyrddin? | | | |
| 37. A hoffech chi gael ymweliad gan gydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol neu gael cyfle i drafod cyflenwi â nhw? | | | |
| • Pwy fyddai'r unigolyn gorau i ni gysylltu ag ef/hi ynghylch rheoli absenoldeb a chyflenwi ar gyfer cydweithwyr? | | | |